4.143

# TUNT: NEU ENFYS GANONAIDD

GAN

## IEUAN GLAN EDOG, B.B.D.A., P.L., U.D.C

## PENILL O ORFOLEDD.

Y Cyfiawn a fydd Ofalus am Fywyd ei Anifail.

Gofalus yw y cyfiawn
Am ei anifail drud,
Un yw ac anadl ynddo,
Mae'n byw mewn nerth o hyd;
Anifail yw anifail,
Mae eisiau gofal dyn,
Am ei anifail gwerthfawr
At ei hoff waith ei hun.

## ALAW:

DEHONGLIAD. Mesur: 29, M. 8, 8, 8, 6,—8 llinell.

Geiriau—BREUDDWYD GWRAIG PILAT.

Doh A.

|| d | d : r | m : s | fe : s | m : f | f : m |
Pwy a freuddwydiodd Ies - - u Mawr oddefodd

| s : s | d : r | m : s || l : l | f : f | m : r |
lawer gyfyng awr, Pan oeddit yma ar y

| d : d | $t_1$ d : | $l_1$ : $t_1$ | d :— | — || m | s : s |
llawr cyn myned at y Tad; Yr uniawn

| l : l | m : fe | s : s || l : l | $d^1$ : $d^1$ | t : l | s :
wêl orseddfainc barn, A ffordd y cyfiawn wna yn sarn,

|| s | m : s | r : m | f : f | m : s || m : s |
A phwysa serch at ran a darn, O'r sanctaidd

| f : r | d :— | — || s :— | s :— ||
hyfryd wlad. A - - men.

Mae breuddwyd yn beth hynod iawn,
O rai cawn hanes am y dawn,
Ac hebddo nid yw'r llyfr yn llawn
I wel'd goddefiad ffydd;
Mae nerthol ffydd wnaeth fydoedd clyd
O dan ystyriaeth deisyf drud,
Y corph anadla'n bur o hyd
Mewn bywyd nos a dydd.

## CAN:

### Y CYNHAUAF GWAIR.

Mesur—"Dacw'r bwthyn O mor hardd fydd eu gwedd."

Deffro'n foreu wna y llanciau
Ddyddiau teg cynhauaf gwair,
Pan yr a'r llancesau ieuanc
At y godro ddwy neu dair;
Yn y buarth bydd yr adar
Wedi dodwy wyau mân,
A rhai eraill gyda'u cywion,
Hefyd cana'r gôg ei chân.

Cyd-gan—
Cais mewn pryd, ar y gair,
Dy lym bladur, na fydd segur
Amser y cynhauaf gwair.

Yn y weirglodd dir y porir
Irwellt gan y gwartheg blith;
Gwelir weithiau ysgyfarnog
Rêd yn gyflym drwy y gwlith;
Ond rhaid gadael iddi ddianc,
Ac ymaflyd ar y gair,
Yn y pigffyrch a'r cribiniau,
Pan bydd yn gynhauaf gwair.

Cydgan— Cais mewn pryd, &c.

Rhencio, gwthio gwair i'w gario
Bydd y teulu y prydnhawn,
I gael cowlas yn y beudy
Cyn y gauaf oer yn llawn;
Gwelir teisi mewn rhai manau,
Drwy chwys gasglwyd wres y dydd,
Porthiant ar y rhewynt caled
I'r anifail iachus fydd.

Cydgan— Cais mewn pryd, &c.

Ceisier llawnder yn y daflod
At ddyfodol ddydd sy' ddod,
Gwnaed y gwas ei waith yn ufudd,
A chaiff ganu er ei glod;
Hoffwn glywed llais y bugail
Yn chwibanu ar y cwn,
Pan y bydd y gareg ateb
Yn fan draw yn dyblu'r swn.

Cydgan— Cais mewn pryd, &c.

Fe'n haddysgir a diwydrwydd
Megis y wenynen fach,
Gweithiwn ninau yn ein tymor,
Felly byddwn gryf ac iach;
Rho'wn ein trysor yn y nefoedd,
Lle na lygra gwyfyn cas,
O'r lle y derbyniwn ymborth
Bery bythol yn ei flas.

Cydgan— Cais mewn pryd, &c.

## DEDDF:

Wrth symud y fyddin, rhaid canu yr udgyrn i alw y gynulleidfa ynghyd, ac iddynt gychwyn.

BENDITH PALACE,
Mai 11, 1904. BIRMINGHAM.

X2052 22330

W.6278